

Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr

21 Hydref 2021

1:30 pm

Yn bresennol:

Tegryn Jones, Prif Weithredwr

Cyngh Paul Harries, Cadeirydd yr Awdurdod (a Chadeirydd y cyfarfod)

Cyngh Di Clements, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod

Dr Rachel Heath-Davies, Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol (yn cymryd nodiadau)

Nodiadau'r cyfarfod:

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Roedd pob Aelod yn bresennol ac ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Datgan buddiannau

Ni ddatganodd yr Aelodau unrhyw fuddiannau.

3. Eithrio'r cyhoedd

Cytunwyd i eithrio'r cyhoedd gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. Adolygiad o berfformiad y Prif Weithredwr

Amcan 1 – Sicrhau bod adnoddau'r Awdurdod yn cael eu rheoli'n effeithiol

Dywedodd TJ bod y sefyllfa ariannol yn gadarnhaol ac yn fwy llewyrchus na'r hyn a ragwelwyd pan wnaed y cyllidebu yn anterth y pandemig. Roedd yr incwm digolledu a dderbyniwyd y llynedd wedi bod o gymorth mawr i sefyllfa ariannol yr Awdurdod, yn enwedig mewn blwyddyn mor heriol. Roedd y ffigurau meysydd parcio bron ddwywaith yr hyn a ragwelwyd (oherwydd bod y ffigurau yn geidwadol gan i'r gyllideb gael ei pharatoi ar ganol y cyfnod clo) ac roedd y refeniw ymwelwyr hefyd wedi bod yn uwch na'r hyn a ragwelwyd. Fodd bynnag, ychwanegwyd bod rhaid gofalu peidio â bod yn rhy obeithiol oherwydd y risg bod toriadau mwy eto i ddod ar draws y sector cyhoeddus. Bydd parhau i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy yn hynod bwysig.

Yn hyn o beth, soniodd y panel am y gwersi a ddysgwyd yn sgîl Covid, a bod angen sicrhau effeithlonrwydd yn y dyfodol. I wneud hynny, roedd DC o'r farn bod angen parhau i fod yn 'ddarbodus ac yn gynnil'.

Roedd cyfran yr incwm cyffredinol a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi gostwng dros y blynyddoedd ac roedd yr angen i gynhyrchu incwm yn parhau i fod yn bwysig. Barnwyd bod codi

arian yn sgil ac yn feddylfryd penodol ac er y gwelwyd rhai llwyddiannau, roedd mwy o waith i'w wneud i gynnwys pob aelod o staff ac Aelodau'r Bwrdd yn yr ymagwedd hon.

Barn arall oedd y gallai mwy o incwm fod ar gael yn y dyfodol oherwydd yr ymwybyddiaeth gynyddol o fuddion yr awyr agored a'r parciau cenedlaethol ers Covid. Hefyd mynegwyd barn y gallai mwy o gyfleoedd i gael cyllid o grantiau datgarboneiddio / ffrydiau incwm ar wahân i gyllid prif ffrwd Llywodraeth Cymru.

O ran cynhyrchu incwm o ffynonellau eraill, amlinellodd TJ y modd yr oedd gwaith yr Ymddiriedolaeth yn codi arian yn fuddsoddiad tymor hir ac y bydd peth o'r gwaith a wneir heddiw yn dwyn ffrwyth ymhen 5-10 mlynedd.

Gofynnodd PH am Bartneriaeth Parciau'r DU, ac eglurodd TJ y gallai fod rhodd swmpus o bosibl ar ei ffordd gan wneuthurwr a manwerthwr deunydd harddwch. Nid oedd yn eglur faint, os o gwbl, fydd cyfran APCAP o'r rhodd i'r parciau ledled y DU. Amlinellodd hefyd y gwaith a wnaed gyda Palladium i ddenu rhoddion corfforaethol. Barnwyd bod y math hwn o fuddsoddiad yn beth da ar hyn o bryd, tra hefyd yn cydnabod bod hyn yn dod â'i risgiau penodol ei hun. Bydd y tîm gweithredol yn ceisio arweiniad gan y Bwrdd ar y materion hyn i'r dyfodol.

Amcan 2 – Cwblhau'r adolygiad corfforaethol a diwygio'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau.

Amlinellodd TJ y camau ymlaen a gymerwyd ar y strategaeth ddrafft a'r gwaith parhaus i ddatblygu'r camau o gyflawni'r strategaeth. Dywedodd bod y camau diweddar wedi bod yn heriol mewn rhai meysydd o'r sefydliad yn ddiweddar ac mai anoddach fyth oedd clustnodi gwaith na fydd yn cael ei gyflawni yn y dyfodol.

Roedd datgarboneiddio yn hynod bwysig, a bydd angen i'r Awdurdod recriwtio sgiliau newydd i'r sefydliad i gyflawni'r gwaith hwn.

Amlinellwyd tair elfen neu gam i'r broses, sef strategaeth, strwythur, ac wedyn graddfeydd cyflog newydd. Dywedodd TJ hefyd bod drafft o strategaeth Gorfforaethol ac Adnoddau ar y gweill.

Bu trafodaeth ar y panel ar weithredu'r strategaeth, ac amlygwyd pwysigrwydd prynu gwasanaeth allanol ac arbenigedd rheolwyr mewn arwain proses o newid.

Daeth TJ â'r drafodaeth i ben drwy ddweud mai ei obaith oedd y byddai ganddo gamau ymlaen o ran newid sefydliadol i'w cyflwyno gerbron erbyn mis Mawrth 2022.

Amcan 3 – Datblygu a gweithredu mentrau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Roedd yr adroddiad yn rhestru peth cynnydd gyda phrosiectau, ond esboniodd TJ bod ymdeimlad o rwystredigaeth gyda'r diffyg uchelgais i feddwl yn fwy eangfrydig ymhlith rhai meysydd o'r Awdurdod. Er mwyn cael effaith wirioneddol ar fioamrywiaeth, roedd angen cynllun 10 mlynedd o bosibl er mwyn cynllunio ar gyfer y lefel o uchelgais a'r raddfa oedd ei angen, a chyflawni hynny.

Barnwyd bod effaith newid yn yr hinsawdd yn fwy heriol gan fod hyn yn gofyn am weithio mewn partneriaeth ledled y sir a thu hwnt. Dywedodd TJ bod angen grŵp Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lefel uchel i gael dulliau mwy cydlynol ar draws Sir Benfro yn awr ar y mater hollbwysig hwn.

Roedd datgarboneiddio yn faes pwysig, ac roedd wedi comisiynu dau gwmni - Afallen ac Afficientra, oedd ag arbenigedd yn y maes hwn ac a fyddai'n cyflwyno adroddiadau erbyn mis Mawrth 2022. Byddent yn cynhyrchu map ffyrdd i ni ac yn clustnodi mentrau a ffrydiau cyllido. Yn dilyn cwestiwn am y fethodoleg newydd, dywedodd TJ ei fod o'r farn bod grŵp yn gweithio'n fewnol i edrych ar fethodoleg Llywodraeth Cymru newydd, ond bod hyn yn faes lle byddai sgiliau ychwanegol yn cael eu clustnodi fel rhan o unrhyw strwythur newydd (gweler y strategaeth amcan 2 uchod).

Dywedodd TJ bod cynnydd wedi'i wneud o ran gofyn i staff ac aelodau'r Bwrdd am syniadau mawr, a dywedodd bod 46 wedi dod i law. Roedd y rhain bellach yn cael eu didoli a bod y syniadau wedi'u grwpio yn ôl themâu ac y byddent yn cael eu gwerthuso yn unol â hynny. Gall fod cyfleoedd i hyrwyddwyr ymhelaethu ar eu syniadau neu yn wir, y posibiliadau o gyfuno syniadau. Ei obaith oedd cael rhyw 6 prosiect yn barod ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Gofynnodd PH gwestiwn am y parciau cenedlaethol morol, ac eglurodd TJ a PH bod rhai trafodaethau paratoadol wedi digwydd, ac er mai'r camau cyntaf yw hyn, bod potensial i ddatblygu yn y maes hwn yn y dyfodol.

Amcan 4 – Cefnogi iechyd a lles y staff

Dywedodd TJ ei fod o'r farn bod y staff yn wynebu'r hydref / gaeaf yn teimlo mwy o'r heriau o weithio o gartref ar ôl gwneud hynny eisoes am gyfnod maith. Wedi dweud hynny, anodd oedd dirnad pa mor anodd yw hyn mewn gwirionedd a faint y gellir ei briodoli i'r gwaith neu i heriau bywyd yn fwy cyffredinol. Dywedodd hefyd bod mwy o staff yn defnyddio'r gwasanaeth cwnsela, sy'n beth da, ond gallai hefyd fod yn arwydd o'r cynnydd mewn pryder.

Aeth ymlaen i egluro mai niferoedd cyfyngedig o staff sy'n mynychu'r swyddfa yn bersonol. Un rheswm posibl oedd y canfyddiad gan y staff bod rhwystrau rhag gwneud hynny, yn enwedig yr angen i gwblhau asesiad risg, y cymerwyd ei fod yn golygu nad yw mynychu'r swyddfa yn cael ei annog. Cynigiodd y panel rai syniadau ar ffyrdd o ofyn am adborth gan y staff gan gynnwys 'Siarter Tîm' ac 'arolwg bys ar y pyls'. Cafwyd trafodaeth hefyd ar ffyrdd o roi hwb i ffurf hybrid newydd o weithio drwy greu system archebu desg, prawf llif unffordd, a defnyddio diwrnodau swyddfa fel ffyrdd o gael digwyddiadau tîm / ailgydio / dal i fyny yn hytrach na chynnal cyfarfodydd fel y cyfryw. Holodd un aelod o'r panel hefyd a ellid defnyddio'r ystafell Fwrdd i dimau bach gwrdd a gweithio yn yr un ystafell.

Fe wnaeth un aelod drosglwyddo'r rhwystredigaethau a drosglwyddwyd iddo ynglŷn â dal i fethu â chyfarfod â chynllunwyr wyneb yn wyneb. Esboniodd TJ bod hyn yn bosibl dim ond bod angen paratoi asesiad risg.

Amcan 5 – Gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i godi proffil yr Awdurdod

Cytunodd y panel bod geiriad yr amcan bellach wedi dyddio gyda'r cyfeiriad at Brexit. Cytunodd y panel y byddai hyn yn cael ei newid.

Ymhelaethodd TJ ar ei adroddiad ysgrifenedig drwy ddweud bod yr Awdurdod wedi cyfrannu at fanifesto Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac roedd un aelod o'r Parciau Cenedlaethol a PH wedi sôn am y modd yr oedd yn dal i gyfeirio at y rhain mewn cyfarfodydd fel Cadeirydd yr Awdurdod.

Roedd TJ wedi parhau i ymgysylltu â'r gangen noddi yn Llywodraeth Cymru, ac o bosibl bod llai o ymgysylltiad â Gweinidogion wedi bod nawr bod Parciau Cenedlaethol wedi'u lleoli mewn adran fwy ers yr etholiad. Croesawodd PH a TJ y cyfarfod gyda'r Gweinidog oedd i ddigwydd cyn hir. Bu peth trafodaeth bellach am rai buddiannau a chyfeiriadau posibl all fod gan y Gweinidog ar sail profiadau Aelodau'r Bwrdd ac achosion cynllunio.

Materion eraill -

Cofrestr Risg –

Gofynnodd RHD am y cynnydd a wnaed o ran y gofrestr risg a'r gwaith diweddar a gomisiynwyd gan archwiliad mewnol. Esboniodd TJ bod rhai syniadau yn adroddiad TIAA yn ddefnyddiol a bod rhai meysydd i'w gwella o ran cyflwyno cofrestr risg gywirach a chryfach mewn pwyllgorau archwilio. Roedd hefyd yn ystyried yr elfen o barodrwydd i dderbyn risg, ac o bosibl yn tynnu sylw at newidiadau i'r gofrestr risg a'r 5 risg pwysicaf ac yn adrodd arnynt. Roedd y panel yn croesawu hyn.

Iechyd a Diogelwch –

Holodd RHD am y capasiti o fewn Adnoddau Dynol i gyflawni elfennau Iechyd a Diogelwch y rôl yn llawn. Yn benodol, prin oedd yr adroddiadau, os o gwbl, ar iechyd y cyhoedd ac agweddau'r canolfannau ymwelwyr at iechyd a diogelwch, ac roedd hyn yn bryder ac yn risg benodol o ran Covid. Sicrhodd TJ RHD drwy ddweud bod y gwaith hwn yn digwydd ac y byddai'n ystyried sut i sicrhau bod adroddiadau yn y dyfodol yn cwmpasu'r agweddau hyn yn llawnach. Hefyd roedd y panel yn cydnabod y dylid edrych ar gapasiti AD ar gyfer y rôl hon fel rhan o lif gwaith y strategaeth.

Ychwanegodd PH ei fod yn poeni bod cynllunwyr a swyddogion gorfodi yn cael eu diffrïo, a'r modd y gallai hyn gael sgil-ffaith ar eu hiechyd meddwl.

Amcanion i'r dyfodol

- i. Modelu opsiynau cyllideb a rheoli adnoddau'r Awdurdod yn effeithiol, gan ystyried yr effaith a'r gwersi o'r cyfnod Covid19, a chynnwys yr Aelodau yn y broses, codi uchelgais y staff, meithrin effeithlonrwydd a chydnerthedd drwy ffyrdd newydd o weithio, a cheisio cyfleoedd ac arloesedd drwy ffynonellau newydd o gyllido;
- ii. Yn dilyn adolygiad corfforaethol, llunio ac ymgynghori ar strategaeth hirdymor yr Awdurdod, ac wedi hynny adolygu'r Cynllun Corfforaethol i nodi a chyfathrebu yn glir y blaenoriaethau lefel uchel i'r staff ac i'r Aelodau fynd â'r maen i'r wal gyda'i gilydd;
- iii. Datblygu a gweithredu mentrau ar dir ac o fewn y môr i alluogi'r Awdurdod i gynorthwyo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth;
- iv. Cefnogi iechyd a lles y staff drwy gynorthwyo'r Rheolwr AD i gwblhau adolygiad o'r polisïau a chwblhau Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru; a
- v. Gweithio gyda phartneriaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i barhau i godi proffil yr Awdurdod ac i ddylanwadu ar bolisïau perthnasol yn lleol ac yn genedlaethol.